

Capasiti Storio Oer yng Nghymru



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



1. Diffiniadau, tueddiadau'r farchnad a sbardunau

Crynodeb

- Dylid meddwl am y capasiti storio oer yng nghyd-destun y model 'jest mewn pryd' o gynhyrchu a dosbarthu bwyd lle mae'r pwyslais ar symud stoc wedi'i oeri ac wedi'i rewi yn effeithiol ar draws y gadwyn oer.
- Yn y cyd-destun hwn, mae'r galw am storfeydd oer yn cynyddu. Dros y tymor hir, nid y galw i gadw mwy o stoc yw'r sbardun fwyaf i hyn ond y cynnydd yn y dewis o gynnyrch sy'n cael ei storio a'r newid yn y patrymau manwerthu.
- Mae'r farchnad ar gyfer storfeydd oer yn gystadleuol iawn. Mae'r costau'n uchel (o'u cymharu â chostau storio cyffredin) ac mae pwysau mawr gan fanwerthwyr i gadw prisiau'n isel.
- I baratoi ar gyfer yr aflonyddwch a ddaw yn sgil Brexit, ceir tystiolaeth gref bod gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr yn chwilio am ragor o le. Ymddengys nad oes fawr o gapasiti sbâr (er nad oes byth llawer iawn o le sbâr yn y farchnad).



Diffinio storfa oer...

1.1 Yn fras, mae 'storfa oer' yn golygu storfa i gadw unrhyw sylwedd mewn tymheredd wedi'i reoli er mwyn rhwystro'r sylwedd rhag pydru neu rhag mynd yn groes i gyfraith neu reoliad¹. Mae hyn yn ymwneud â storio amrywiaeth eang o gynhyrchion, o dan amrywiaeth o dymhereddau:

- yn y sector **bwyd** (sef mwyafrif llethol y galw), mae bwyd wedi'i rewi'n cael ei gadw rhwng -20°C a -29°C a thig wedi'i rewi o gwmpas -10°C ; mae cynnyrch wedi'i oeri (fel caws) yn cael ei gadw fel arfer rhwng 2°C a 4°C , ac mae gofynion tymheredd bwydydd eraill yn amrywio. Bydd storfeydd oer fel arfer yn gallu cynnig 'chwyth-rewi' nwyddau os oes angen eu rhewi'n gyflym cyn eu cludo ymhellach.
- yn y sector **fferyllol**, rhaid wrth storfeydd oer o safon fferyllol mewn ysbytai, athrofeydd ymchwil a chwmnïau biofferyllol ar gyfer storio gwaed, brechlynnau ac ati.

1.2 Nid yw'n syndod bod **storfeydd oer yn cael eu rheoleiddio'n drwm a'u bod llawer llai generig na storfeydd (warysau) cyffredinol**. Mae'n bwysig cofio hefyd **mai un rhan yn unig o'r 'gadwyn oer' fwy yw storfeydd oer**: mae'n hanfodol bod tymheredd yn cael ei reoli yn y storfa, wrth gludo'r nwyddau ac ym mhen y daith, ac mae busnesau logisteg yn defnyddio llawer o storfeydd oer fel rhan o gadwyn oer integredig.



1. Cyfieithiad yw'r uchod o ddiffiniad Winnesota, cwmni storfeydd oer a logisteg o America (www.winnesota.com); mae Llawlyfr Raddio'r Asiantaeth Brisio yn defnyddio diffiniad tebyg (<https://www.gov.uk/guidance/rating-manual-section-6-part-3-valuation-of-all-property-classes/section-280-cold-stores>)

2. Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Rating Manual, Adran 6, Rhan 3, Adran 280.

... a ble i fynd i gael storfa oer

1.3 Mae amrywiaeth eang o wahanol fathau o fusnesau'n darparu storfeydd oer, o fewn marchnad gweddol gymhleth. Â siarad yn fras, dyma'r mathau o fusnesau sy'n cynnig storfeydd oer:

- **gweithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr bwyd**, sydd â'u storfeydd oer eu hunain ar eu safle. Fel arfer maen nhw'n rhan o ffatri'r cwmni ac yn gallu chwyth-rewi a storio cynnyrch cyn eu cludo i gwsmeriaid. Un rhan o'r sector gweithgynhyrchu bwyd yw busnesau **gwasanaethau bwyd**, sy'n dod â chyflenwadau ynghyd ar gyfer y farchnad arlwyyo. Maen nhw'n cynnwys cwmnïau mawr a busnesau rhanbarthol llai. Ar gyfer defnyddwyr llai, mae storfeydd llog ar gael ac mae modd prynu unedau oer symudol.
- **pen-ddefnyddiwr** (h.y. storfa dosbarthwr terfynol y cynnyrch). Y prif gwmnïau yn y categori hwn yw'r prif archfarchnadoedd sydd â'u cyfleusterau storio eu hunain
- **busnesau logisteg trydydd parti (3PL)**. Busnesau sy'n storio a/neu yn cludo dros amrywiaeth o weithgynhyrchwyr a phen-ddefnyddwyr ac sy'n cynnwys cwmnïau logisteg amlwladol yn ogystal â chwmnïau lleol a rhanbarthol llai. Fel arfer, bydd storfa 3PL wedi'i rhannu'n nifer o adrannau â thymheredd gwahanol ym mhob un er mwyn gallu cadw amrywiaeth o nwyddau. Er bod y rhan fwyaf o'r trafod am ddiffyg storfeydd oeri wedi canolbwyntio ar gwmnïau 3PL, mae'n bwysig cofio mai dim ond rhan o'r capasiti storio oer yw cwmnïau 3PL.



Tueddiadau cyffredinol yn y farchnad

Y tymor hir

1.4 Mae arolwg o adroddiadau'r diwydiant ac astudiaethau o'r farchnad yn dangos tueddiadau tymor hir o ran y galw sy'n effeithio ar y farchnad am storfeydd oer:

- **mae'r galw tymor hir am storfeydd ar gynnydd.** Mae'r farchnad yn y DU am fwyd wedi'i rewi (gwerth rhyw £8.1 biliwn yn 2017 yn ôl y British Frozen Food Federation) wedi tyfu'n gynt na'r sector manwerthu bwyd yn gyffredinol yn y blynyddoedd diwethaf. Y cynnydd yn y galw am fwyd ag ystod gymhleth o gynhwysion (fel melysfwyd wedi'i rewi) a chynnyrch premiwm wedi'u gwneud o gynhwysion 'lleol' sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd³. O'u holi, mae cwmnïau wedi tynnu sylw at y cynnydd yn y dewis o gynnyrch sydd ar y farchnad (gan gynnwys nwyddau wedi'u hoeri sydd â chynhwysion gafodd eu rhewi). Mae hynny'n arwain at fwy o alw am storfeydd oer (wedi'u gwahaniaethu).
- **mae natur y galw manwerthu yn newid,** yn enwedig o ystyried bod yn well gan bobl brynu llai yn amlach a'r cynnydd mewn siopa ar-lein. Mae hyn yn arwain at bwyslais ar amserau dosbarthu byrrach a phatrymau teithio cymhlethach – tuedd sy'n rhoi mantais gystadleuol i fusnesau sy'n fwy ac yn fwy hyblyg⁴. Ar draws y flwyddyn, mae'r galw am storfeydd oer yn tueddu i fod yn gylchol, gan gyrraedd ei anterth yng nghyfnod y Nadolig a'r Pasg.
- **mae costau yn gymharol uchel,** hynny oherwydd rheoliadau llym, anghenion amrywiol cynnyrch penodol, yr amrywiaeth o fathau o storfeydd oer, yr angen i'w hintegreiddio â systemau dosbarthu oer a'r defnydd trwm ar ynni (o ran stoc hŷn). Yr un pryd, mae gofynion gweithgynhyrchwyr ac archfarchnadoedd yn codi safonau, ac mae'r galw am gyflenwadau o ansawdd is yn isel.
- **er gwaetha'r costau uchel hyn, mae pwysau mawr iawn o du manwerthwyr i ostwng prisiau** mewn marchnad defnyddwyr gystadleuol iawn. Ar yr un llaw, mae hyn wedi arwain at fuddsoddi mewn awtomateiddio ac i arbed ynni.⁵ Ar y llall, y farn ymhlith cwmnïau a gweithgynhyrchwyr bwyd yw bod yr elw cymharol fach yn llesteirio parodrwydd (a'r gallu) i fuddsoddi.
- **mae tuedd i weithgynhyrchwyr bwyd fuddsoddi yn eu storfeydd oer eu hunain,** yn rhannol er mwyn cadw rheolaeth dynnach ar eu stoc eu hunain (yn hytrach na rhoi'r gwaith i gwmnïau 3PL)⁶.

"Mae pwysau mawr wedi bod ar y diwydiant i gadw prisiau'n isel ac mae hyn wedi dychryn pobl rhag buddsoddi, yn enwedig mewn marchnadoedd llai fel Cymru."

Gweithgynhyrchydd bwyd

3. Food Manufacturer (30 July 2017), 'Retail frozen food sales grow to £5.8 billion' (<https://www.foodmanufacture.co.uk/Article/2017/07/28/British-frozen-food-sales-grow>). Roedd gwasanaethau bwyd yn cyfrif am £2.4 biliwn o'r gwerthiant.

4. Global Cold Chain News (February 2016), 'State of the UK Market' (<http://www.globalcoldchainnews.com/wp-content/uploads/2016/02/Special-Report-State-of-UK-market-2014.pdf>)

5. Cold Chain News (15 January 2016), 'Lack of warehousing drives demand for handling technology' (<http://www.globalcoldchainnews.com/lack-of-warehousing-drives-demand-for-handling-technology/>)

6. CRS Mobile Cold Storage (2017) (<https://www.crscoldstorage.co.uk/latest-news/cold-storage-2017.html>)

- 1.5 Gan ei fod yn ffactor sy'n effeithio ar bob agwedd ar yr uchod, mae'n bwysig cofio bod y farchnad am storffeydd oer yn gweithio yng nghyd-destun y **model 'jest mewn pryd' o gynhyrchu a dosbarthu**. O fewn hwnnw, mae'r cadwyni cyflenwi wedi tyfu'n fwyfwy cymhleth a mwy gwasgaredig, gan ddibynnu mwy ar symud nag ar storio. Yn ôl Food Statistics Pocketbook Defra, bu i dros hanner cyflenwyr bwyd y DU leihau lefelau eu stoc yn eu dosbarthfeydd yn y 5 mlynedd hyd at 2015, gan nodi, wrth i gadwyni cyflenwi manwerthu dyfu'n fwy ymatebol, bod 'amserau arwain' yn lleihau a bod archebion yn cael eu gwneud yn amlach⁷. Mae'r cydbwysedd tynn rhwng y galw am fwyd a gallu darparu'r cyflenwad bwyd ar unwaith wedi'i gydnabod ers sawl blwyddyn, gan fod y system yn dibynnu ar symudiadau logistig cymhleth: er bod y galw am storffeydd oer wedi cynyddu'n ddiweddar, yr hyn sydd wedi sbarduno'r cynnydd hwnnw yw mwy o ddewis o gynnyrch a throsiant stoc, nid cynnydd yn lefelau'r stoc eu hunain.

Yr her tymor byr

- 1.6 Yn unol â hyn, mae llawer o gyhoeddusrwydd wedi'i roi i'r pwysau ar y capasiti yn sgil Brexit, gydag archfarchnadoedd yn cynyddu'u stoc o unedau oeri er mwyn gallu cadw mwy o stoc⁸, a cheir tystiolaeth nad oes capasiti sbâr ar ôl gan gyflenwyr gan fod gweithgynhyrchwyr wedi archebu cymaint ymlaen llaw⁹.
- 1.7 Nid yw'r cyfyngiadau hyn ar gapasiti'n syndod o ystyried y model dosbarthu bwyd sylfaenol a'r ffaith nad yw wedi'i greu i gadw stoc am gyfnod hir. Er bod Brexit wedi tynnu'n sylw at ein dibyniaeth ar system gynhyrchu a logisteg 'jest mewn pryd', ymddengys fod ochr gyflenwi'r farchnad yn gweld Brexit yn ddigwyddiad untro. Er hynny, mae rhai cwmnïau wedi gweld potensial i gynyddu'r storffeydd oer yn y DU os daw'r storffeydd yn Ffrainc a Gwlad Belg (er enghraifft) ar gyfer nwyddau sydd ar eu ffordd i'r DU yn lai cystadleuol.



-
7. Defra (2018), *Food Statistics in Your Pocket 2017*, retailer / warehouse stock levels (<https://www.gov.uk/government/publications/food-statistics-pocketbook-2017/food-statistics-in-your-pocket-2017-global-and-uk-supply#retailer-warehouse-stock-levels---5-year-change>). Roedd fersiynau blaenorol o'r Pocket Book yn ymdrin â lefelau stocio fesul categori nwyddau groser: rhoddwyd y gorau i hyn, ond yn ôl y Pocket Book yn 2010, roedd gan storffeydd manwerthwyr werth 9.5 diwrnod o gyflenwad o nwyddau wedi'u rhewi (o'u cymharu â 12 niwrnod o gyflenwad ym 1996).
8. Financial Times (16 January 2019), 'Tesco braces for Brexit by renting frozen food containers' (<https://www.ft.com/content/56421ec2-1982-11e9-b93e-f4351a53f1c3>)
9. Tim Lang, Erik Millstone, Tony Lewis and Gary McFarlane (November 2018), Food Research Collaboration Food Policy Briefing, City University Centre for Food Policy

2. Casgliadau

Dyma rai casgliadau ynghylch capasiti...

2.1 Mae rhai casgliadau cyffredinol y gellir dod iddynt ynghylch capasiti storfeydd oer yng Nghymru:

- **yn y tymor byr, mae'r diffyg lle yn amlwg, o leiaf yn y sector 3PL.** Mae hyn yn wir ar lefel y DU yn gyfan ac mae Cymru'n adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, mae dau bwynt yn werth eu nodi o ran dylanwad Brexit a storio mwy nag arfer o nwyddau:
 - yn gyntaf, mater polisi yw'r cyfyngu ar gapasiti oherwydd Brexit yn hytrach na rhyw ddiffyg yn y farchnad: does dim digon o gapasiti ar gyfer storio 'diangen' gan fod trosiant cyflym o dan amodau arferol y farchnad
 - yn ail, ychydig o sgôp sydd i fynd i'r afael â chyfyngiadau tymor byr yn y capasiti. Er mai cynyddu'r capasiti storio sydd wedi cael sylw'r penawdau, mae gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd yn cydnabod hyn ac wedi dilyn nifer o strategaethau 'rhag ofn' eraill (fel prynu cynhwysion oddi wrth fwy o amrywiaeth o ffynonellau).
- **yn y tymor hir, mae cost darparu mwy o gapasiti yn gymharol uchel:** gan fod cymaint o amrywiaeth o ofnyon o ran tymheredd a thrin, a bod angen defnyddio ynni'n effeithlon, mae storfeydd oer yn ddrtach na storfeydd cyffredin (amcangyfrif cost datblygu 'super-hub' cenedlaethol yw rhwng ryw £5 miliwn a hyd at £100 miliwn), gyda 5-10 mlynedd i'w ddatblygu ac mae'r farchnad yn gofyn am safonau uwch.
- **o safbwynt y gweithgynhyrchydd, mae'r farchnad fel pe bai'n gweithio fel 'economi gymysg' ar draws wahanol segmentau'r sector storfeydd oer.** Mae llawer o weithgynhyrchwyr bwyd yn gweithio eu storfeydd oer eu hunain: mae'r galw am hyn yn cynyddu ac mae'n debyg y bydd gostyngiad yng nghapasiti'r sector 3PL (a chynnydd yn ei gostau o'r herwydd) yn cryfhau'r achos busnes i fusnesau fuddsoddi yn eu storfeydd oer eu hunain. Wedi dweud hynny, mae storfeydd oer allanol yn dal i fod yn bwysig i lawer o fusnesau.
- **ac i gloi, er bod presenoldeb Cymru yn y farchnad storfeydd oer (ac yn y farchnad logisteg yn gyffredinol) yn gymharol fach, dylid gweld hyn yng nghyd-destun cadwyn oer hynod integredig y DU.** Mae'r system yn dibynnu ar 'symud' yn hytrach na 'storio' nwyddau, ac mae'r rhwydweithiau dosbarthu yn gymhleth. Yn y cyd-destun hwnnw, mae Cymru'n 'farchnad' lai ar wahân ac yn rhan integredig o system fwy.



- 2.2 O ystyried yr uchod, ymddengys nad oes rheswm cryf i Lywodraeth Cymru ymyrryd i gynyddu'r capasiti** yng nghyd-destun y ffordd y mae'r farchnad yn gweithio ar hyn o bryd. Ychydig o storfeydd oer sydd yng Nghymru, ond o fewn y DU yn gyfan, mae'r farchnad yn ymateb trwy fuddsoddi mewn darpariaeth newydd (ond mewn gwlad sydd wedi'i chyfyngu o ran tir a thrafnidiaeth, bydd unrhyw waith newydd mawr yn dreth ar amser ac yn ddud).
- 2.3** Fodd bynnag, mae gan Gymru sector gweithgynhyrchu bwyd pwysig a nifer fawr o gwmnïau bach ac mae'r galw am gynhwysion lleol o ansawdd da yn cynyddu. Yn y cyd-destun hwnnw, gallai busnesau storio oer bach sy'n gallu delio â llwythi llai fod yn rhan bwysig o ecosystem gweithgynhyrchu bwyd lleol (fel y gallai busnesau gwasanaethau bwyd rhanbarthol sy'n prynu cyfran arwyddocaol o'u cynnyrch yn lleol).

